## ATODLEN 6

### Gorchmynion adran 97 a 102 o dan Ddeddf 1990

**8.** Mae rheoliad 15 i'w ddarllen fel pe bai'n darparu—

"**Cyfarwyddydau cwmpasu**

**15.**—(1) Rhaid i ofyniad a wneir o dan y paragraff hwn yn unol â rheoliad 14(5) gynnwys—

(a) yr wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 14(2); a

(b) unrhyw sylwadau y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn dymuno eu cyflwyno.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn unol â pharagraff (1) yn ddigonol i wneud cyfarwyddyd cwmpasu, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio lleol.

(3) Rhaid i'r hysbysiad nodi unrhyw bwyntiau y mae'n ofynnol cael gwybodaeth ychwanegol amdanynt.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgynghori â'r ymgynghoreion cyn gwneud cyfarwyddyd cwmpasu mewn ymateb i ofyniad o dan baragraff (1), a

(b) gwneud cyfarwyddyd ac anfon copi i'r awdurdod cynllunio lleol, o fewn 5 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad y ceir y gofyniad hwnnw neu'r fath gyfnod hwy a all fod yn rhesymol ofynnol.

(5) Cyn gwneud cyfarwyddyd cwmpasu rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y materion a bennir yn rheoliad 14(4)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 6 para. 8 mewn grym ar 16.5.2017, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 16/05/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017, Paragraff 8.